Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Cynllun Rheoli
2020-2024

Cymeradwywyd gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro,
11eg Rhagfyr 2019

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast National Park

www.arfordirpenfro.cymru

Rhagair 3
1. Croeso i Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro 5
2. Tirwedd ar gyfer bywyd a bywoliaeth 15
3. Llesiant, mwynhad a darganfod 17
4. Diogelu ac adfer bioamrywiaeth 20
5. Dathlu treftadaeth 22
6. Rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy 24
7. Y camau nesaf 27
Atodiad A – Cefndir y Parc Cenedlaethol a'r Cynllun Rheoli 28
Atodiad B - Cynlluniau, polisïau a chanllawiau cysylltiedig 33
Atodiad C - Ffynonellau tystiolaeth allweddol 36

Rhagair

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yw'r unig barc cenedlaethol yn y DU a ddynodwyd yn bennaf oherwydd ei arfordir. Yn y fan hon – lle mae'r tir a'r môr yn cyfarfod – y mae'r Parc Cenedlaethol ar ei fwyaf gwyllt a chyffrous.

Mae'r Parc Cenedlaethol hefyd yn dirwedd a luniwyd gan bobl. Mae'r Parc yn drysor cenedlaethol, ac mae'n dathlu ei ben-blwydd yn 70 oed yn 2022.

Yn 2018, amlinellodd Llywodraeth Cymru flaenoriaethau allweddol ar gyfer tirweddau gwarchodedig yng Nghymru. Maent yn fannau o werth naturiol a diwylliannol uchel. Maent ar gyfer pawb yng Nghymru, ac maent yn hanfodol i gyflawni'r uchelgeisiau cenedlaethol a lleol o ran yr amgylchedd, cymdeithas a datblygu economaidd.[1]

Mae'r Cynllun Rheoli hwn yn nodi'r camau i fynd i'r afael â dibenion cadwraeth, mwynhad a dealltwriaeth y Parc Cenedlaethol. Mae'n adeiladu ar gynlluniau blaenorol ac ar yr hyn a ddysgwyd mewn sgyrsiau gyda'r cyhoedd a sefydliadau sy'n bartneriaid. Fe'i paratowyd gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro fel cynllun partneriaeth.

Mae'r prif gyfleoedd a heriau a nodwyd wrth ddatblygu'r Cynllun hwn yn cynnwys:

- galluogi ecosystemau i adfer ar raddfa briodol a gwella cyflwr bywyd gwyllt ar dir ac yn yr amgylchedd morol
- gwarchod a gwella iechyd pridd a gwella storfeydd carbon naturiol
- mynd i'r afael ag effeithiau rhywogaethau goresgynnol a phathogenau planhigion
- lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ac addasu i newid yn yr hinsawdd
- lleihau llygredd o nitradau ac amonia
- gwarchod awyr dywyll y nos
- rheoli'r risgiau i asedau treftadaeth, gan gynnwys tirweddau hanesyddol
- hybu'r Gymraeg a'i thafodieithoedd
- darparu cyfleoedd dysgu yn yr awyr agored, yn enwedig i blant
- darparu cyfleoedd cynaliadwy ar gyfer gweithgareddau hamdden yn yr awyr agored ar gyfer croestoriad llawn o gymdeithas a chynyddu pa mor aml y cymerir rhan.
- rheoli'r pwysau posibl a gwirioneddol ar hamdden fel y rhai sy'n deillio o wersylla heb awdurdod, a thagfeydd.

Mae cyfnod y Cynllun (2020-2024) yn argoeli i fod yn un o newid mawr, yn gyfle yn ogystal â her. Bydd fframwaith deddfwriaethol a pholisi newydd Cymru – gyda nodau

[1] *Gwerthfawr a Chydnerth: Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol* (2018)

ac amcanion llesiant cenedlaethol, datganiadau ardal rhanbarthol ac egwyddorion ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy[2] – yn helpu partneriaid i ymateb.

Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ymrwymedig i roi cyfle teg i gymryd rhan yn y broses o ddatblygu cynlluniau a gwneud penderfyniadau. Mae cyfraniadau pawb ar bob cam o'r gwaith o baratoi'r Cynllun yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu. Mae'r Awdurdod am barhau â sgyrsiau a pherthnasau ac adeiladu arnyn nhw wrth weithredu'r Cynllun. Nid yw'r Cynllun ond man cychwyn.

[2] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016, Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 a *Polisi Adnoddau Naturiol* (2017), Llywodraeth Cymru.

1. Croeso i Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Tirwedd fyw, sy'n gweithio

1.1 Mae Parciau Cenedlaethol y DU yn dirweddau eithriadol. Eu dibenion yw:

- gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol
- hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol[3]

Map: Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

[3] Os bydd gwrthdaro na ellir ei ddatrys rhwng y dibenion, ar gadwraeth y rhoddir y pwys mwyaf (egwyddor 'Sandford').

1.2 Nododd preswylwyr ac ymwelwyr beth, yn eu barn hwy, yw rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol, a'r ffactorau sy'n effeithio arnynt, fel y cam cyntaf yn y gwaith o baratoi Cynllun Rheoli cynharach ac ar y cyd â'r Cynllun Datblygu Lleol cyntaf ar gyfer y Parc Cenedlaethol. Mae'r rhinweddau arbennig yn cyfrannu at naws am le, a'r rhinweddau hynny yw:

- hygyrchedd
- ysblander arfordirol
- treftadaeth ddiwylliannol
- cymeriad unigryw aneddiadau
- daeareg amrywiol
- amrywiaeth y dirwedd
- ynysoedd
- natur anghysbell, llonyddwch a gwylltineb
- amgylchedd hanesyddol cyfoethog
- cyfoeth cynefinoedd a rhywogaethau
- lle i anadlu
- amrywiaeth profiadau a chyfuniad o rinweddau unigol

Mae tirweddau yn sail i lesiant, ffyniant a diwylliant pobl.
Maent yn cefnogi'r prosesau sy'n helpu i gynhyrchu bwyd, rheoleiddio hinsawdd, lleihau llifogydd a storio carbon.

1.3 Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn gweithio'n agos gyda nifer o sefydliadau ac unigolion eraill i gyflawni dibenion y Parc Cenedlaethol. Mae dyletswydd ar Awdurdod y Parc Cenedlaethol i geisio meithrin llesiant cymdeithasol ac economaidd cymunedau'r Parciau Cenedlaethol wrth iddo fynd ati i gyflawni'r dibenion.

Mae Parciau Cenedlaethol Cymru yn cyfrannu £1 biliwn i economi Cymru,[4] ac mae llawer iawn ohono yn dod o'r hyn y mae ymwelwyr yn ei wario.

Cynhyrchwyd £346 miliwn drwy'r hyn a wariodd ymwelwyr a busnesau twristiaeth o fewn ffiniau Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn 2017, gan gefnogi bron 11,000 o swyddi cyfwerth ag amser llawn yn y Parc Cenedlaethol a'r ardal lle mae ganddo ddylanwad economaidd.[5]

Themâu ar gyfer gweithredu mewn partneriaeth

1.4 Mae Deddf yr Amgylchedd 1995 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod y Parc Cenedlaethol baratoi Cynllun Rheoli ar gyfer y Parc Cenedlaethol.[6]

---

[4] *Rhoi Gwerth ar Barciau Cenedlaethol Cymru 2013*, Awdurdod y Parc Cenedlaethol
[5] Ymchwil i effaith economaidd twristiaeth a wnaed ar gyfer Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro gan Global Tourism Solutions (UK) Ltd.
[6] Rhaid i bob Awdurdod Parc Cenedlaethol baratoi Cynllun Rheoli pum mlynedd sy'n cynnwys ei bolisi ar gyfer rheoli'r Parc perthnasol ac ar gyfer cyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas â'r Parc hwnnw (Adran 66 o Deddf yr Amgylchedd, 1995).

1.5 Bydd y Cynllun Rheoli yn cyflawni dibenion y Parc Cenedlaethol trwy weithredu mewn partneriaeth ar draws pum thema:

1.6 Mae'r pum thema yn seiliedig ar ddibenion y Parc Cenedlaethol ac yn cyd-fynd â:

- Deddf Cynllunio (Cymru) 2015
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Yr egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a nodir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016[7]
- Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016
- *Polisi Adnoddau Naturiol*, Llywodraeth Cymru, 2017[8]
- Datganiad polisi Llywodraeth Cymru yn 2018, *Gwerthfawr a Chydnerth: Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol*

1.7 Mae adrannau 2 i 6 o'r Cynllun Rheoli yn ymdrin â phob thema ac yn nodi polisïau, a'r effeithiau a fydd yn nodweddu'r polisïau, ar gyfer cyfnod y Cynllun.

Atodiadau

1.8 Yn Atodiad A, mae rhagor o gefndir i'r Parc Cenedlaethol a'r Cynllun Rheoli. Mae'n cynnwys deddfwriaeth, polisi a chanllawiau perthnasol a sut maent yn cael eu hystyried; gwersi a ddysgwyd ers y Cynllun blaenorol, a sut y pennwyd y cyfleoedd a'r heriau allweddol.
Yn Atodiad B, mae rhestr o ddogfennau i roi cyd-destun (ee blaenoriaethau cenedlaethol, cynlluniau neu raglenni eraill) a ystyriwyd wrth ddrafftio'r Cynllun Rheoli.
Yn Atodiad C, mae rhestr o'r prif ffynonellau data a ystyriwyd wrth ddrafftio'r Cynllun Rheoli.

[7] Disgwylir i hyn ddod yn ofyniad cyfreithiol i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol.
[8] Mae hwn yn pennu tair blaenoriaeth genedlaethol: darparu atebion sy'n seiliedig ar natur; cynyddu ynni adnewyddadwy a gwneud adnoddau yn fwy effeithlon; a mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar le.

Asesiadau statudol

1.9 Mae tri asesiad yn cyd-fynd â'r Cynllun Rheoli, sef:

- Arfarniad o Gynaliadwyedd (gan gynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol)
- Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb
- Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

1.10 Mae'r asesiadau ar gael ar wefan Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Mae crynodeb o gasgliadau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd ar gael ym mhob adran o'r Cynllun Rheoli hwn.

Deunydd ategol

1.11 Paratowyd y deunydd a ganlyn i gefnogi'r Cynllun Rheoli ac mae ar gael ar wefan Awdurdod y Parc Cenedlaethol.

Mapiau

1.12 Mae'r rhain yn darlunio rhai o'r cyfleoedd / meysydd effaith a restrir o dan bob polisi yn y Cynllun Rheoli. Nid yw'r mapiau yn rhan o'r Cynllun Rheoli a byddant yn cael eu diweddaru yn ôl yr angen dros gyfnod y Cynllun.

Papur cefndir: Cyflwr y Parc Cenedlaethol

1.13 Lluniwyd papur cefndir, *Cyflwr y Parc Cenedlaethol,* wrth baratoi'r Cynllun Rheoli hwn. Ategir hyn gan linell sylfaen amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd helaeth sy'n rhan o'r Arfarniad o Gynaliadwyedd. Mae'r cyfleoedd a'r heriau allweddol a bennwyd yn cynnwys:

- galluogi ecosystemau i adfer ar raddfa briodol a gwella cyflwr bywyd gwyllt ar dir ac yn yr amgylchedd morol
- gwarchod a gwella iechyd pridd a gwella storfeydd carbon naturiol
- mynd i'r afael ag effeithiau rhywogaethau goresgynnol a phathogenau planhigion
- lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ac addasu i newid yn yr hinsawdd
- lleihau llygredd o nitradau ac amonia
- gwarchod awyr dywyll y nos
- rheoli'r risgiau i asedau treftadaeth, gan gynnwys tirweddau hanesyddol
- hybu'r Gymraeg a'i thafodieithoedd
- darparu cyfleoedd dysgu yn yr awyr agored, yn enwedig i blant
- darparu cyfleoedd cynaliadwy ar gyfer gweithgareddau hamdden yn yr awyr agored ar gyfer croestoriad llawn o gymdeithas a chynyddu pa mor aml y cymerir rhan.
- rheoli'r pwysau posibl a gwirioneddol ar hamdden fel y rhai sy'n deillio o wersylla heb awdurdod, a thagfeydd.

1.14 Mae'r cyfleoedd a'r heriau hyn wedi arwain at y meysydd polisi a'r meysydd effaith a bennir yn y Cynllun Rheoli hwn.

Sut olwg fydd ar lwyddiant?

1.15 Anaml y mae 'llwyddiant' yn rhywbeth pendant mewn parc cenedlaethol yn y DU. Mae tirweddau yn bethau deinamig, a bydd y wybodaeth a'r canfyddiadau amdanynt, a'r hyn a ddisgwylir ohonynt, yn newid. Am y

rheswm hwn, nid yw'r Cynllun Rheoli yn pennu targedau sydd â chanlyniadau penodol. Yn hytrach, mae'n pennu amrywiaeth o effeithiau polisi dymunol a fydd yn cael eu defnyddio dros gyfnod y Cynllun i bwyso a mesur i ble'r ydym ni'n mynd a pha mor gyflym y teithiwn. Caiff y cynnydd ei asesu drwy gyfrwng adroddiadau blynyddol ac adroddiad Cyflwr y Parc.

1.16 Mae tirweddau gwarchodedig yn ased genedlaethol ac yn ddull pwysig o gyflawni llawer o uchelgeisiau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd Llywodraeth Cymru. Bydd ymgorffori'r Cynllun Rheoli yn y cyd-destun polisi rhanbarthol a chenedlaethol yn sicrhau bod y Cynllun yn cyfrannu at ddangosyddion llesiant cenedlaethol Llywodraeth Cymru.

Esboniad o'r termau

1.17 Efallai y bydd rhai termau yn y ddogfen hon yn anghyfarwydd neu'n cael eu defnyddio mewn ffordd benodol. Mae esboniad yn y rhestr isod.

Adeilad Rhestredig	Adeilad, gwrthrych neu strwythur y dyfarnwyd ei fod o bwysigrwydd cenedlaethol oherwydd ei bensaernïaeth neu ei hanes ac sydd wedi'i gofrestru fel y cyfryw.
Adeiladau mewn Perygl	Adeiladau rhestredig neu strwythurau yr aseswyd eu bod mewn cyflwr anfoddhaol o ran eu cyflwr a'u deiliadaeth neu'r defnydd a wneir ohonynt. (Gweler Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 a Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016.)
Ardal Cadwraeth Arbennig	Ardaloedd a ddynodwyd o dan Gyfarwyddeb Cynefinoedd CE 1992 i warchod cynefinoedd a rhywogaethau a restrir yn Atodiad I (cynefinoedd) ac Atodiad II (rhywogaethau) y Gyfarwyddeb.
Ardal Gadwraeth	Ardal o ddiddordeb pensaernïol a hanesyddol arbennig. (Gweler Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 a Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016.)
Ardal Gwarchodaeth Arbennig	Ardaloedd a ddynodwyd o dan Gyfarwyddeb Adar y CE 1979 i ddiogelu adar prin, adar dan fygythiad neu adar bregus sydd wedi'u rhestru yn Atodiad I y Gyfarwyddeb, a'u cynefinoedd.
Arfarniad cynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol	Arfarniad o effeithiau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol cynllun o ddechrau'r broses baratoi er mwyn gallu gwneud penderfyniadau sy'n ategu datblygiad cynaliadwy.
Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb	Proses wedi'i chynllunio i sicrhau nad yw polisi, prosiect neu gynllun yn gwahaniaethu yn erbyn pobl dan anfantais neu fregus.
Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd	Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn awdurdod cymwys o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (deddfwriaeth ddrafft: Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019). Yn unol â'r rheoliadau hynny, rhaid i'r Awdurdod wneud asesiad o Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol cyn ei

	fabwysiadu. Cyfeirir at yr asesiad hwn fel Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ac mae'r rheoliadau'n pennu proses glir y mae'n rhaid ei dilyn.
Bioamrywiaeth	Yn cyfeirio at amrywiaeth a chyfoeth rhywogaethau – cyfanswm y genynnau, y rhywogaethau a'r ecosystemau mewn rhanbarth a'r amrywiaeth o fewn a rhwng rhywogaethau, ecosystemau a'r prosesau syn sail iddynt.
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus	Sefydlwyd hwn gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn gyfrifol am baratoi a gweithredu Cynllun Llesiant ar gyfer eu hardal awdurdod lleol berthnasol.
Canllawiau cynllunio atodol	Gwybodaeth atodol am y polisïau mewn Cynllun Datblygu Lleol. Nid yw'r Canllawiau Cynllunio Atodol yn rhan o'r Cynllun Datblygu ac nid ydynt yn destun archwiliad annibynnol ond mae'n rhaid iddynt fod yn gyson â'r Cynllun ac â'r polisi cenedlaethol.
Cloddiau	Clawdd uchel o bridd, fel arfer ag wyneb carreg, ac o bosibl gyda gwrych ar ei gopa. Mae cloddiau'n bwysig yn lleol ac mae iddynt werth ecolegol.
Cod Morol Sir Benfro	Codau ymddygiad gwirfoddol a chyfyngiadau mynediad tymhorol y cytunwyd arnynt i ddiogelu bywyd gwyllt Sir Benfro.
Corff dŵr	Mae cyrff dŵr yn cynnwys llynnoedd, pyllau, cronfeydd dŵr, gwlyptiroedd, afonydd a nentydd.
Cyfundrefn llif	Yr amrywiad yn llif afon dros gyfnod o flwyddyn.
Cymraeg 2050	*Cymraeg 2050* yw uchelgais Llywodraeth Cymru i weld nifer y bobl sy'n gallu siarad a defnyddio'r Gymraeg yn cyrraedd miliwn erbyn 2050.[9]
Cynefin lled-naturiol	Cynefin a effeithiwyd yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan weithgaredd dynol, ee gweirglodd, rhostir.
Cynhwysiant cymdeithasol	Camau cadarnhaol i alluogi pobl a chymunedau i gymryd rhan lawn mewn cymdeithas neu i elwa ar adnodd neu wasanaeth penodol.
Cynllun Datblygu Lleol	Y cynllun datblygu statudol y mae'n rhaid i bob awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru ei lunio o dan Ran 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004. Rhaid i awdurdodau cynllunio lleol bennu eu hamcanion ar gyfer datblygu a defnyddio tir yn eu hardal a phennu'r polisïau cyffredinol ar gyfer gweithredu'r amcanion hynny o fewn eu Cynlluniau Datblygu Lleol. Yn ogystal â rhoi sylw i bolisi cynllunio cenedlaethol, rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol ystyried polisi cynllunio rhanbarthol a strategaeth gymunedol yr awdurdod a'r ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol sy'n berthnasol i'r ardal leol a'r amgylchedd byd-eang, trwy gynnal gwerthusiad cynaliadwyedd o'r Cynllun Datblygu Lleol.
Cynllunio cyrchfan	Proses o arwain, dylanwadu a chydlynu'r gwaith o reoli agweddau ar gyrchfan sy'n cyfrannu at brofiad ymwelwyr, gan

[9] Cymraeg 2050: https://gov.wales/topics/welshlanguage/welsh-language-strategy-and-policies/cymraeg-2050-welsh-language-strategy/?lang=cy

	ystyried anghenion ymwelwyr, trigolion, busnesau a'r amgylchedd.
Cysylltedd	Y graddau y mae'r dirwedd yn ei gwneud yn hawdd i rywogaethau symud o gwmpas. Mae gan wahanol rywogaethau anghenion cysylltedd gwahanol, ee rhaid i bathewod gael cynefin addas lled-barhaus.
Chalara (clefyd y coed ynn)	Clefyd coed ynn a achosir gan y ffwng *Hymenoscyphus fraxineus*. Mae Chalara yn achosi'r coed i golli dail, gwywo ar y copa a briwiau ar y rhisgl. Mae'r clefyd fel arfer yn angheuol, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol trwy wanhau'r goeden i'r fath raddau fel ei bod yn hawdd i blâu neu bathogenau eraill ymosod arni. Fodd bynnag, mae rhai coed ynn yn gallu goddef neu wrthsefyll yr haint.
Dalgylch	Basn ddraenio, h.y. ardal o dir lle mae glaw yn casglu ac yn draenio arllwysfa gyffredin, fel afon.
Datblygiad mawr	Mewn Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, mae ystyriaethau arbennig yn gymwys i gynigion ar gyfer datblygiadau mawr sydd yn fwy cenedlaethol na lleol o ran cymeriad. Diffinnir hyn yn fanylach ym Mholisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 10.
Diogelwch bwyd	Lle mae digon o fwyd diogel a maethlon ar gael i ddiwallu gofynion poblogaeth am fywyd iach, a hynny mewn dulliau y gall y blaned eu cynnal yn y dyfodol.
Dull sy'n seiliedig ar le	Mae *Polisi Adnoddau Naturiol* Llywodraeth Cymru (2017) yn disgrifio dull sy'n seiliedig ar le fel ffocws ar gydweithio i gyflawni gwell canlyniadau'n lleol (tudalen 19 o'r Polisi). Mae Datganiadau Ardal a thirweddau dynodedig yn "chwarae rhan allweddol o ran adnabod y cyfleoedd a'r cyfyngiadau lleol, a'u cysylltiad â'r blaenoriaethau cenedlaethol" (tudalen 20 o'r Polisi).
Dŵr Ymdrochi Dynodedig	Traeth neu gorff o ddŵr mewndirol a ddefnyddir gan nifer fawr o ymdrochwyr sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer dynodi o dan y Gyfarwyddeb Dŵr Ymdrochi (diwygiedig) (2006/7/EC) ac a ddynodwyd yn llwyddiannus fel y cyfryw.
Dwysáu cynaliadwy	Y nod o gynyddu cynhyrchiant fferm gan leihau'r effeithiau amgylcheddol a gwella'r gwasanaethau ecosystem y mae tir amaethyddol yn eu darparu i gymdeithas.
Economi gylchol	Dewis amgen i economi linellol (gwneud, defnyddio, gwaredu). Cedwir yr adnoddau cyn hired ag y gellir, ceir y gwerth mwyaf ohonyn nhw tra byddan nhw'n cael eu defnyddio, a chaiff y cynnyrch a'r defnyddiau eu hadennill ar ddiwedd eu hoes.
Ecosystem	Cymuned yw ecosystem sy'n cynnwys organebau byw a chydrannau nad ydynt yn rhai byw, fel aer, dŵr a phridd.
Gwydnwch ecosystem	Gallu ecosystem i wrthsefyll, ymateb neu addasu i ymyrraeth neu darfu. Mae *Cynllun Adfer Natur Cymru* yn rhestru pedair nodwedd gwydnwch: cynyddu bioamrywiaeth; cynyddu maint yr ecosystem drwy lai o ddarnio; cynyddu cysylltedd o fewn a rhwng ecosystemau; a gwella cysylltedd cynefinoedd.
Gwyddoniaeth	Ymchwil wyddonol lle mae'r cyhoedd yn gwneud cyfraniad

dinasyddion	mawr, ee drwy gyfrwng arolwg.
Hawliau tramwy cyhoeddus	Term cyfun ar gyfer llwybrau troed (hawl dramwy gyhoeddus lle mae'r hawl i dramwyo ar draed yn unig); llwybrau ceffyl (hawl dramwy gyhoeddus lle mae'r hawl i dramwyo ar draed, ar feic a chan farchogaeth neu arwain ceffyl); Cilffyrdd ar Agor i Bob Traffig (hawl dramwy gyhoeddus ar agor i bob math o ddefnyddwyr, gan gynnwys cerbydau a gaiff eu tynnu gan geffyl a cherbydau modur); cilffyrdd cyfyngedig (hawl dramwy gyhoeddus sydd â hawl dramwy fel llwybrau ceffyl ynghyd â hawl dramwy ar gerbydau sydd heb fodur) a Llwybrau Cyd-ddefnyddio (llwybrau penodedig a rennir gan feicwyr a cherddwyr sydd wrth ymyl ffyrdd yn aml iawn, ond hefyd yn ymestyn i gefn gwlad).
Heneb Gofrestredig	Safle archaeolegol neu adeilad hanesyddol sy'n bwysig yn genedlaethol. Ni chaniateir ei addasu heb ganiatâd.
Hierarchaeth gwastraff	Trefn o gamau gweithredu i leihau a rheoli gwastraff; er enghraifft, mae atal a lleihau gwastraff yn well nag adennill ynni neu waredu.
Lliniaru	Mesurau sy'n osgoi, lleihau, adfer neu'n gwneud iawn am effeithiau negyddol.
Llwybr caniataol	Yn ogystal â Hawliau Tramwy Cyhoeddus a llwybrau ar gyfer beicwyr a cherddwyr, mae yna hefyd lawer o lwybrau caniataol yn Sir Benfro. Mae dau fath o lwybrau. Mae'r cyntaf yn codi pan fo tirfeddiannwr yn cytuno i ganiatáu i'r cyhoedd dramwyo ar hyd llwybr diffiniedig, nad yw'n Hawl Dramwy Gyhoeddus. Yn achos yr ail fath, bydd tirfeddiannwr yn caniatáu i hawliau uwch gael eu harfer ar hyd Hawl Dramwy Gyhoeddus na'r rhai a briodolwyd i'r llwybr yn ôl y gyfraith.
Llygredd gwasgaredig	Llygredd sy'n deillio o nifer o ffynonellau unigol (rhai bach o bosibl) ond a all gael effaith fawr ar y cyd.
Morwedd	Golygfa sy'n cynnwys golygfeydd llawn neu rannol o'r môr.
Nitrogen adweithiol	Mathau o nitrogen sy'n weithgar yn fiolegol, gan gynnwys ocsidau nitrogen, amonia, halen amoniwm ac wrea, ac ocsidau nitrus.
Naws am le	Hunaniaeth unigryw lle, a ganfyddir gan drigolion a/neu ymwelwyr, sy'n deillio o ymwneud pobl â'r dreftadaeth naturiol a diwylliannol dros gyfnod o amser.
Nodweddion gwarchodedig	Nodweddion gwarchodedig yw'r naw grŵp a ddiogelir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Y naw grŵp yw: oedran; anabledd; ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw; cyfeiriadedd rhywiol.
Nwyddau cyhoeddus	Cynhyrchion y gall unigolion eu defnyddio heb leihau eu gallu i fod ar gael i unigolion eraill, ac nad oes neb yn cael eu heithrio ohonynt.
Partneriaeth Natur Sir Benfro	Mae Partneriaeth Natur Sir Benfro yn darparu trosolwg strategol a fforwm ar gyfer cydweithio wrth weithredu blaenoriaethau'r UE, y DU, Cymru a lleol ar gyfer gweithredu bioamrywiaeth.
Pathogen	Bacteriwm, firws neu ficro-organeb arall a all achosi clefydau.

Rhagnodi cymdeithasol	Ymarferwyr meddygol yn cyfeirio cleifion i wasanaethau lleol, anfeddygol yn y gymuned.
Rhanddeiliaid	Buddiannau yr effeithir yn uniongyrchol arnynt gan y Cynllun perthnasol – cânt eu cynrychioli'n gyffredinol gan gyrff penodol.
Rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy	Dull o weithredu a bennir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.
Rhywogaethau estron goresgynnol	Anifail neu blanhigyn estron a all gael effaith sylweddol ar fioamrywiaeth ac ar y gymdeithas ddynol a'i buddiannau economaidd. Cydnabyddir bod rhywogaethau estron goresgynnol yn un o brif achosion colli bioamrywiaeth ledled y byd.
Safle Darganfod Awyr Dywyll	Caiff hwn ei ddynodi gan bartneriaeth Darganfod Awyr Dywyll y DU (rhwydwaith o sefydliadau seryddiaeth ac amgylcheddol cenedlaethol a lleol). Mae Safleoedd Darganfod Awyr Dywyll yn lleoedd sydd yn ddigon pell o'r gwaethaf o unrhyw lygredd goleuni lleol, mae modd gweld yr awyr yn glir ohonynt ac mae ganddynt fynediad da i'r cyhoedd , gan gynnwys tir cadarn ar gyfer cadeiriau olwyn. Yn safleoedd y "Llwybr Llaethog" mae'r Llwybr Llaethog i'w weld gyda'r llygad noeth a gellir cynnal digwyddiadau gwylio'r sêr yno.
Safle Morol Ewropeaidd	Term a ddefnyddir i ddisgrifio Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (a ddynodir o dan Gyfarwyddeb Cynefinoedd yr UE) a / neu Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (a ddynodir o dan Gyfarwyddeb Adar yr UE) sy'n cynnwys cynefinoedd neu rywogaethau morol.
Safleoedd cadwraeth natur dynodedig	Safleoedd o ddiddordeb cadwraeth natur sydd wedi'u diogelu gan y gyfraith.
Seinwedd	Yr amgylchedd acwstig fel y caiff ei ganfod, ei brofi neu ei ddeall gan bobl mewn unrhyw gyd-destun penodol. Mae hyn yn cynnwys seiniau buddiol a niwtral yn ogystal â sŵn diangen.
Sgil-ddalfa	Pysgod neu rywogaeth arall a ddaliwyd yn anfwriadol wrth bysgota. Gallai'r sgil-ddalfa fod yn rhywogaeth wahanol, neu'n fath bach neu ifanc o'r rhywogaeth darged.
Storfa garbon	Storfa naturiol neu artiffisial sy'n cronni ac yn storio cyfansawdd sy'n cynnwys carbon, ee pridd a llystyfiant.
Tai fforddiadwy	Tai ar werth neu ar rent am brisiau islaw cyfradd y farchnad, a ddarperir ar gyfer pobl leol mewn tai anaddas na allant fforddio datrys eu hanghenion tai ar y farchnad agored.
Teithio llesol	Gwneud teithiau (yn gyffredinol o fewn ardaloedd trefol) trwy gyfrwng dulliau llesol, ee cerdded neu feicio. Fel rheol, mae'r rhain yn siwrneiau byr, ee o'r cartref i'r siop, ysgol, gwaith neu i orsaf fysiau neu orsaf drenau.
Treftadaeth ddiwylliannol	Yr arferion, y cynrychioliadau, yr ymadroddion, yn ogystal â'r wybodaeth a'r sgiliau y mae cymunedau, grwpiau neu

anniriaethol	unigolion yn cydnabod eu bod yn rhan o'u treftadaeth ddiwylliannol.
Treftadaeth y ddaear	Nodweddion daearegol a thirffurf, gan gynnwys priddoedd a'r prosesau sy'n eu llunio. Gellir dynodi nodweddion o bwysigrwydd cenedlaethol neu ranbarthol yn Safleoedd Adolygu Cadwraeth Ddaearegol (Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig) a Safleoedd Daearegol a Geomorffaidd Pwysig Rhanbarthol (dynodiad anstatudol a weinyddir gan Gyfoeth Naturiol Cymru).
Troseddau treftadaeth	Unrhyw drosedd sy'n achosi difrod i werth asedau treftadaeth a'u lleoliadau.

2. Tirwedd ar gyfer bywyd a bywoliaeth

Polisi L1: Gwarchod a gwella tirweddau a morweddau’r Parc Cenedlaethol.
Yr effeithiau yn ystod cyfnod y Cynllun: a. Ymgysylltu'n barhaus ag ystod eang o bobl am reoli'r Parc Cenedlaethol i gyflawni dibenion y Parc Cenedlaethol. b. Rheoli datblygiad yn unol â pholisïau *Cynllun Datblygu Lleol 2* Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro o ran datblygiadau mawr, safleoedd amddiffyn, golau, amwynder, cyflogaeth, dyraniadau tai, hap-safleoedd ar gyfer tai, a thir a gaiff ei ryddhau’n eithriadol ar gyfer tai fforddiadwy, i hybu cymunedau cynaliadwy. c. Lleihau gweledded y seilwaith presennol (ee trwy danddaearu ceblau) gyda ffocws ar gynlluniau a gefnogir gan Western Power Distribution yn Parrog Trefdraeth, Great Castle Head a Thraeth Marloes. d. Gwarchod ac adfer ffiniau caeau a choed yn y dirwedd, a chreu gwrychoedd a stribedi coetir newydd, gan ystyried cymeriad y dirwedd, anghenion rhywogaethau o ran cysylltedd, ac effeithiau pathogenau planhigion ee *Chalara* – clefyd coed ynn, a mynd ar drywydd cyfleoedd i leihau effeithiau coetiroedd coniffer anfrodorol ar fioamrywiaeth a’r dirwedd. e. Cydweithio i gyflawni prosiectau sy'n deillio o *Gynllun Llesiant Sir Benfro*, ee Ymgysylltiad Cymunedol Ystyrlon. f. Llunio asesiad o risgiau rheoli tir i safleoedd treftadaeth daear a blaenoriaethu ar gyfer rheoli. g. Rheoli sbwriel a chodi ymwybyddiaeth am ei effeithiau.

Polisi L2: Gwarchod a gwella awyr dywyll y nos
Yr effeithiau yn ystod cyfnod y Cynllun: a. Cynhyrchu a hyrwyddo canllawiau cynllunio atodol ar gyfer Sir Benfro ar oleuadau ar gyfer datblygiadau sydd angen cynlluniau goleuo (Cyngor Sir Penfro ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro). b. Ymgysylltu â chymunedau i leihau golau diangen. c. Hyrwyddo arfer da mewn perthynas â goleuo, gyda gorfodaeth lle bo'n briodol, gan ganolbwyntio ar osodiadau sy'n weladwy o safleoedd Darganfod Awyr Dywyll.

Polisi L3: Gwarchod a gwella seinweddau naturiol.

Yr effeithiau yn ystod cyfnod y Cynllun:

a. Cydweithio trwy Bartneriaeth Lonydd Glas Sir Benfro i ddarparu a hyrwyddo mentrau trafnidiaeth gyhoeddus, teithio llesol a cherbydau carbon isel hygyrch a fforddiadwy, a chyfrannu at reoli traffig mewn lleoliadau penodol.

b. Rheoli cynigion ar gyfer dwysáu'r defnydd o safleoedd y Weinyddiaeth Amddiffyn, neu eu hymestyn, yn unol â pholisi *Cynllun Datblygu Lleol 2* Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

Crynodeb o'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Polisi L1: Cadarnhaol iawn ar gyfer amcanion arfarnu cynaliadwyedd ar gyfer tirweddau / morweddau a bioamrywiaeth, yn enwedig o ran gwydnwch.

Polisi L2: Yn cyfrannu'n gadarnhaol at amcanion arfarnu cynaliadwyedd ar gyfer y dirwedd a bioamrywiaeth; gall hefyd fod o fudd i'r amcan arfarnu cynaliadwyedd ynghylch twristiaeth y tu allan i'r tymor brig.

Polisi L3: Yn cyfrannu'n gadarnhaol at amcanion arfarnu cynaliadwyedd, yn bennaf trwy ganolbwyntio ar leihau'r defnydd o gerbydau preifat er budd trafnidiaeth amgen a theithio llesol gan anelu at leihau llygredd ac allyriadau nwyon tŷ gwydr yn ogystal â sŵn.

3. Llesiant, mwynhad a darganfod

Polisi W1: Darparu a hyrwyddo cyfleoedd hamdden awyr agored cynaliadwy i bawb.
Yr effeithiau yn ystod cyfnod y Cynllun: a. Rheoli Llwybr Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro, rhan o Lwybr Arfordir Cymru, i ddarparu amrywiaeth o brofiadau, a'i hyrwyddo i gynulleidfaoedd newydd. (Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a Chyngor Sir Penfro). b. Gweithredu *Cynllun Gwella Hawliau Tramwy 2018-2028*, mewn partneriaeth â chymunedau, grwpiau defnyddwyr a grwpiau cleientiaid. c. Cael gwared ar rwystrau i gyfleoedd hamdden / llesiant yn yr awyr agored, gan gynnwys rhwystrau trafnidiaeth, a hyrwyddo'r cyfleoedd i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, ee trwy weithredu atebion a gyflwynir yn y *Archwiliad Hamdden ar gyfer Mynediad i Bobl Anabl* (2017). d. Cydweithio i gyflawni prosiectau sy'n deillio o *Gynllun Llesiant Sir Benfro*, ee Dathlu'r Awyr Agored. e. Gwella ansawdd dŵr mewn dyfroedd ymdrochi dynodedig sy'n cyrraedd statws is nag “Ardderchog”. f. Rheoli pwysau hamdden posibl / gwirioneddol[10] a materion o ran capasiti safle a chymuned fel y rhai sy'n deillio o wersylla diawdurdod, tagfeydd, digwyddiadau mawr a defnydd amhriodol o gychod a badau.[11] g. Cydweithio trwy Bartneriaeth Cyrchfan Sir Benfro i reoli Sir Benfro a'r Parc Cenedlaethol fel cyrchfan gynaliadwy. h. Cydweithio i sicrhau bod hyrwyddo'r Parc Cenedlaethol fel cyrchfan yn cyrraedd ac yn cynrychioli cynulleidfaoedd mwy amrywiol, gan gynnwys plant a theuluoedd ifanc o ardaloedd difreintiedig. i. Cydweithio trwy Bartneriaeth Lonydd Glas Sir Benfro i ddarparu a hyrwyddo mentrau trafnidiaeth gyhoeddus, teithio llesol a cherbydau carbon isel hygyrch a fforddiadwy, a chyfrannu at reoli traffig mewn lleoliadau penodol. j. Hyrwyddo cyfranogiad lleol amlach mewn gweithgareddau gan gynnwys cerdded, beicio, rhwyfo, padlfyrddio, canŵio, caiacio a nofio mewn mannau lle mae capasiti.

[10] Gan gynnwys y rhai a nodwyd yn *Mwynhau Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Cynllun i ddarparu a rheoli cyfleoedd ar gyfer Hamdden Cynaliadwy yn y Parc Cenedlaethol*.
[11] Mae'r safleoedd yn cynnwys Abereiddi, Abermawr, Barafundle a Chei Stagbwll, Cwm yr Eglwys, Dwyrain Freshwater, Gorllewin Freshwater, Martin's Haven, Porthgain, Pwllgwaelod, St Justinian, Strwmbl a’r Traeth Mawr.

k. Cydweithio i alluogi mynediad cyhoeddus i ddŵr lle bo'n briodol ar gyfer mwynhad tawel.

l. Rheoli Dyfrffordd Aberdaugleddau yn unol â *Chynllun Rheoli Hamdden 5 Mlynedd Dyfrffordd Aberdaugleddau 2016* a gorfodi is-ddeddfau ar gyfer y Ddyfrffordd, harbwr a’r traeth.

m. Cydweithio i ddarparu gwasanaethau iechyd ar sail natur, gan gynnwys rhaglenni cerdded wedi'u targedu, mentrau iechyd meddwl, a chefnogi pobl sy'n byw gyda dementia.

n. Darparu Strategaeth Traeth Sir Benfro a pharatoi a chyflwyno Cynllun Rheoli Blaendraethau.

o. Rheoli aflonyddwch sy’n deillio o weithgareddau hamdden i rywogaethau a grwpiau o rywogaethau, fel adar sy'n nythu ar glogwyni a mamaliaid morol, trwy godau ymddygiad, cyfyngiadau a chodi ymwybyddiaeth.

Polisi W2: Darparu a hyrwyddo cyfleoedd dysgu sy’n ysbrydoli yn yr awyr agored a datblygiad personol i bawb.

Yr effeithiau yn ystod cyfnod y Cynllun:

a. Darparu cyfleoedd hamdden a dysgu / chwarae awyr agored, amgylcheddol, treftadaeth a chelfyddydau trwy gyfrwng rhaglenni ysgolion a phecynnau gwersi, gweithgareddau a digwyddiadau teuluol, darpariaeth blynyddoedd cynnar, a ffocws ar bobl ifanc (yn enwedig pobl ifanc mewn ardaloedd trefol difreintiedig).

b. Dehongli a bywddarlunio’r dreftadaeth ddiwylliannol, hanes naturiol a'r celfyddydau mewn safleoedd a berchenogir ac a reolir.

c. Cynnig cyfleoedd i wirfoddoli / gwyddoniaeth dinasyddion a hyfforddiant ffurfiol.

d. Datblygu gweithgareddau a digwyddiadau astrodwristiaeth tymhorol, yn amodol ar arweiniad a lliniaru unrhyw effeithiau ee ar fywyd gwyllt a da byw.

Crynodeb o'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Polisi W1: Yn hyrwyddo dull cyfannol o reoli gweithgareddau hamdden yn y Parc Cenedlaethol. Yn anelu at ddiogelu'r adnoddau hamdden, y dirwedd / amgylchedd naturiol (gan gynnwys yr amgylchedd morol), a rheoli'r pwysau sy'n codi o weithgareddau fel gwersylla diawdurdod. Mae hefyd yn ceisio lleihau tagfeydd ac allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig â defnyddio ceir preifat ledled y Parc Cenedlaethol drwy gydweithio â Phartneriaeth Lonydd Glas Sir Benfro. Yn gyffredinol, mae'r polisi'n cyfrannu'n gadarnhaol ar draws ystod o amcanion arfarnu cynaliadwyedd.

Polisi W2: Yn cyfrannu'n gadarnhaol iawn tuag at yr amcan arfarnu cynaliadwyedd ar

hamdden corfforol a gwirfoddoli. Mae hyrwyddo gweithgareddau twristiaeth sy'n gysylltiedig ag awyr dywyll yn debygol o ddod â manteision i'r economi ymwelwyr gan gynnwys rhai y tu allan i'r tymor. Fodd bynnag, mae hyrwyddo'r gweithgareddau hyn hefyd yn debygol o arwain at rywfaint o effeithiau tymhorol anfynych ar fioamrywiaeth. Bydd cynnwys y mesurau o dan ran d) y polisi yn helpu i liniaru'r effaith hon.

4. Diogelu ac adfer bioamrywiaeth

Polisi E1: Diogelu a gwella ansawdd, maint a chysylltedd bioamrywiaeth ar raddfa addas.

Yr effeithiau yn ystod cyfnod y Cynllun:

a. Cynnal ac ymestyn cymorth amaeth-amgylcheddol wedi'i deilwra'n lleol (gan gynnwys cyngor, grantiau cyfalaf, cytundebau rheoli, cymorth gyda phori, mynediad at wirfoddolwyr, cyfamodau cadwraeth) i gefnogi'r gwaith o adfer bioamrywiaeth (ee gweirgloddiau, glaswelltir corsiog, gwrychoedd a choridorau nentydd), gan gynnwys safleoedd cadwraeth natur dynodedig a safleoedd natur eraill uchel eu gwerth.

b. Cadw ac adfer coetir lled-naturiol, coetir pori, coed yn y dirwedd a ffiniau caeau, gan ystyried anghenion cysylltedd rhywogaethau, tirwedd ac effeithiau pathogenau planhigion ee *Chalara* - clefyd coed ynn, a mynd ar drywydd cyfleoedd i leihau effeithiau coetiroedd coniffer anfrodorol ar fioamrywiaeth a'r dirwedd.

c. Rheoli a monitro rhywogaethau anfrodorol a / neu niweidiol goresgynnol mewn partneriaeth â chymunedau lleol, gan gyfeirio'n benodol at glymog Japan, Jac y Neidiwr a *Rhododendron* yn nalgylchoedd Gwaun, Porthgain, Clydach a Chastellmartin.

d. Rheoli datblygiad yn unol â pholisïau a chanllawiau cynllunio atodol *Cynllun Datblygu Lleol 2* Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ar fioamrywiaeth.

e. Cefnogi Grŵp Tanau Gwyllt Sir Benfro a rhanddeiliaid perthnasol i reoli a lliniaru risgiau tanau gwyllt.

f. Cyfrannu at gyflawni'r Rhwydwaith 'B-lines' yn Sir Benfro, ac at gadw a gwella safleoedd blaenoriaeth yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Cacwn.

g. Rheoli goleuadau ar gyfer rhywogaethau a grwpiau o rywogaethau bregus gan gynnwys ystlumod, dyfrgwn, pathewod, adar drycin Manaw (yr effeithir arnynt hefyd gan oleuadau llongau) ac infertebratau.

h. Gweithredu cynlluniau rheoli ar gyfer Ardal Cadwraeth Arbennig Forol Sir Benfro, Safleoedd Morol Ewropeaidd Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd, ac Ardal Cadwraeth Arbennig Bae Ceredigion (mae'r camau gweithredu sy'n flaenoriaeth yn cynnwys codi ymwybyddiaeth, rheoli adnoddau byw yn gynaliadwy fel abwyd a gwymon, sbwriel morol a monitro rhywogaethau goresgynnol yn y môr), cefnogi'r gwaith o reoli Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig morol cyfagos fel y bo'n briodol a chydweithio i gyflawni Cynlluniau Gweithredu ar gyfer Rheoli'r Rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig.

i. Cydweithio ar atal llygredd morol, cynllunio wrth gefn ac ymateb.

j. Caffael neu brydlesu safleoedd o werth gwirioneddol neu bosibl i fyd natur lle mae hynny'n opsiwn rheoli costeffeithiol.

k. Dehongli a bywddarlunio'r dreftadaeth ddiwylliannol, hanes naturiol a'r celfyddydau.

l. Hyrwyddo bwyd a gynhyrchir yn lleol, sy'n gadarn yn amgylcheddol ac yn gyfrifol yn gymdeithasol (ee cynnyrch safon organig, cynnyrch a dyfir yn y gymuned neu gynnyrch cadwraethol).

m. Rheoli aflonyddwch yn sgil gweithgareddau hamdden i rywogaethau a grwpiau o rywogaethau fel adar sy'n nythu ar glogwyni a mamaliaid y môr trwy godau ymddygiad, cyfyngiadau a chodi ymwybyddiaeth.

n. Ymgymryd â mesurau penodol i warchod rhywogaethau y mae Sir Benfro yn bwysig iddynt (ee y fursen Ddeheuol sy'n nodweddu Ardal Cadwraeth Arbennig y Preseli).

o. Cefnogi'r gwaith o gyflwyno Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig Llywodraeth Cymru.

p. Cydweithio i gyflawni prosiectau sy'n deillio o *Gynllun Llesiant Sir Benfro*, ee Asesiad Risg Amgylcheddol a Newid Hinsawdd.

q. Gwrthod cynigion sy'n debygol o gael effaith andwyol sylweddol (naill ai eu hunain neu ar y cyd â chynlluniau a phrosiectau eraill) ar safle Ewropeaidd oni bai y gellir cadarnhau, ar ôl asesiad priodol, na fyddant yn cael effaith niweidiol sylweddol ar ddidwylledd y safle(oedd) dan sylw.

r. Monitro troseddau yn erbyn bywyd gwyllt, a chydgysylltu ag asiantaethau atal troseddu i sicrhau y cymerir y camau priodol mewn achos o droseddu.

Crynodeb o'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Polisi E1: Mae'r polisi'n cyfrannu at yr amcan arfarnu cynaliadwyedd ar fioamrywiaeth, gyda goblygiadau cadarnhaol pellach i'r dirwedd, newid yn yr hinsawdd a'r amgylchedd dŵr. Mae manteision hefyd i'r amcan arfarnu cynaliadwyedd ar gyfer yr economi wledig trwy gefnogi cynnyrch lleol ac i gynaliadwyedd yr economi ymwelwyr leol trwy gynnal a gwella cyflwr bywyd gwyllt.

5. Dathlu treftadaeth

Polisi H1: Cadw a gwella tirweddau o ddiddordeb hanesyddol penodol, Ardaloedd Cadwraeth, henebion cofrestredig, adeiladau rhestredig a'u lleoliadau.

Yr effeithiau yn ystod cyfnod y Cynllun:

a. Codi ymwybyddiaeth a gwella mwynhad y cyhoedd o dirweddau, adeiladau a henebion hanesyddol, cynyddu mynediad priodol atynt a chynnwys a chefnogi cymunedau a gwirfoddolwyr wrth fonitro a gwarchod treftadaeth.

b. Monitro cyflwr henebion cofrestredig a safleoedd o arwyddocâd lleol o ran treftadaeth.

c. Gwneud gwaith rheoli pwrpasol (gan gynnwys cymorth gan y cynllun amaeth-amgylcheddol) i sefydlogi henebion mewn cyflwr sy'n gwaethygu, gan flaenoriaethu yn ôl cyflwr yr heneb a lefel y risg, gan gofnodi a chloddio er mwyn achub, fel sy'n briodol, yn achos safleoedd sydd mewn perygl o erydu arfordirol.

d. Gwarchod ac adfer ffiniau caeau gyda phwyslais arbennig ar ardaloedd o dirweddau hanesyddol cofrestredig ac ar eu perthnasedd i gysylltedd ar gyfer bioamrywiaeth.

e. Rheoli datblygiad yn unol â pholisïau treftadaeth a chanllawiau cysylltiedig (ee diweddariadau i ddogfennau cynigion ardal gadwraeth, gan gynnwys adolygu gorchmynion cadw coed) *Cynllun Datblygu Lleol 2* Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

f. Cadw a gwella ardaloedd cadwraeth ac adeiladau hanesyddol, gan gynnwys adeiladau rhestredig ac adeiladau sydd mewn perygl, trwy gynghori, dyfarnu grantiau a mesurau gorfodi.

g. Cadw hynodrwydd lleol yn yr amgylchedd adeiledig.

h. Dathlu enwau lleoedd, ee enwau caeau.

i. Monitro troseddau treftadaeth, a chydgysylltu ag asiantaethau atal troseddu i sicrhau y cymerir y camau priodol mewn achos o droseddu.

Polisi H2: Hybu’r Gymraeg a thafodieithoedd lleol a dathlu diwylliant a chreadigrwydd sy'n gysylltiedig â'r dirwedd.

Yr effeithiau yn ystod cyfnod y Cynllun:

a. Dehongli a bywddarlunio’r dirwedd, y dreftadaeth ddiwylliannol, hanes naturiol a'r celfyddydau.

b. Cyfrannu at y targed[12] ar gyfer nifer y bobl sy'n gallu mwynhau siarad a defnyddio'r Gymraeg er mwyn cyrraedd miliwn erbyn 2050.

c. Cydweithio â chymunedau lleol ac eraill i ddathlu a chofnodi tafodieithoedd, arferion, caneuon, crefftau a nodweddion eraill o hunaniaeth leol yn y Parc a darparu cyfleoedd i bobl rannu straeon am eu perthynas â'r dirwedd a'u treftadaeth eu hunain.

d. Darparu arweiniad o ran mwynhau'n sensitif henebion a ystyrir yn gysegredig a'u lleoliadau.

e. Cydweithio i gyflawni prosiectau sy'n deillio o *Gynllun Llesiant Sir Benfro*, ee Cyfranogiad Cymunedol.

Crynodeb o'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Polisi H1: Mae'r polisi'n mynd i'r afael yn uniongyrchol â dyheadau amcan yr arfarniad o gynaliadwyedd ar gyfer tirweddau gyda manteision ehangach o ran bioamrywiaeth / gwytnwch ecolegol i newid yn yr hinsawdd, yr economi ymwelwyr a chynnal amrywiaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol.

Polisi H2: Mae'r polisi yn cyfrannu'n gadarnhaol iawn at yr amcan arfarnu cynaliadwyedd ar amrywiaeth ddiwylliannol, yn enwedig y rhan honno o'r amcan hwn sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Mae yna hefyd fanteision ehangach i fioamrywiaeth trwy gynyddu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth a thrwy warchod gwybodaeth am werth bioamrywiaeth sydd eisoes wedi'i sefydlu yng nghymunedau'r Parc Cenedlaethol. Yn ogystal, mae dathlu diwylliant yn dod â manteision i'r economi ymwelwyr lleol drwy gydol y flwyddyn drwy effaith economaidd y digwyddiadau.

[12] *Cymraeg 2050*

6. Rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy

Polisi N1: Cyfrannu at economi carbon isel i Gymru[13] ac addasu i newid yn yr hinsawdd.

Yr effeithiau yn ystod cyfnod y Cynllun:

a. Cydweithredu i gyflawni'r camau gweithredu yn *Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel* gan gynnwys sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030, gweithredu mesurau ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni (gweler N1b), lleihau allyriadau trafnidiaeth (gweler N1d) a diogelu a chynyddu storio carbon (gweler N3b) gan gynnwys priddoedd amaethyddol.

b. Rheoli datblygiad yn unol â pholisïau a chanllawiau *Cynllun Datblygu Lleol 2* Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro mewn perthynas â threftadaeth pridd, dŵr, aer a daear, cefnogaeth ar gyfer datblygu ynni adnewyddadwy priodol a mesurau effeithlonrwydd ynni, llifogydd a gorlifo arfordirol, datblygu mewn ardaloedd rheoli newid arfordirol, adleoli datblygiad yr effeithir arno gan newid arfordirol, dylunio cynaliadwy a draenio a gwastraff, wedi'i ategu gan ganllawiau cynllunio atodol lle bo angen, a hyrwyddo effeithlonrwydd gwastraff drwy'r hierarchaeth wastraff a thrwy godi ymwybyddiaeth o egwyddorion yr economi gylchol.

c. Cydweithio i gyflawni prosiectau sy'n deillio o *Gynllun Llesiant Sir Benfro*, ee Dod yn Sir Garbon Niwtral.

d. Cydweithio ar gynlluniau addasu arfordirol ee Niwgwl.

e. Cydweithio trwy Bartneriaeth Lonydd Glas Sir Benfro i ddarparu a hyrwyddo mentrau trafnidiaeth gyhoeddus, teithio llesol a cherbydau carbon isel hygyrch a fforddiadwy.

Polisi N2: Gwarchod a gwella ansawdd dŵr ac adfer lefelau dŵr a chyfundrefnau llif naturiol.

Yr effeithiau yn ystod cyfnod y Cynllun:

a. Cefnogi monitro a gwella statws y cyrff dŵr hynny yn y Parc Cenedlaethol sy'n cael eu hystyried yn wael neu'n gymedrol drwy raglen o fesurau perthnasol Cynllun Rheoli Basnau Afonydd Cyfoeth Naturiol Cymru,[14] y rheoliadau sydd ar y gweill ar gyfer 1 Ionawr 2020, a thrwy fentrau cyflenwol ee masnachu maetholion.

[13] *Gwerthfawr a Chydnerth: Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol*, Llywodraeth Cymru, 2018

[14] Mae'r rhaglen o fesurau yn cynnwys lleihau swm y slyri a'i reoli yn ôl yr arferion gorau, ynghyd â silwair, olew tanwydd, a chemegau amaethyddol; gwahanu dŵr budr a glân, cynllunio rheoli maetholion, stribedi byffer a ffensio glannau afonydd, cnydau gorchudd a rheoli pridd mewn dalgylchoedd wedi'u targedu.

b. Gweithredu Cylluniau Rheoli Perygl Llifogydd 2015-2021 ar gyfer y Cleddau ac Afonydd Arfordirol Sir Benfro, Teifi a Gogledd Ceredigion.

Polisi N3: Cadw a gwella priddoedd a storfeydd carbon naturiol.

Yr effeithiau yn ystod cyfnod y Cynllun:

a. Hyrwyddo bwyd a gynhyrchir yn lleol, sy'n gadarn yn amgylcheddol ac yn gyfrifol yn gymdeithasol (ee cynnyrch safon organig, cynnyrch a dyfir yn y gymuned neu gynnyrch cadwraethol).

b. Cefnogi cadwraeth pridd, rheoli priddoedd mawn, gwarchod gwlyptiroedd, gwarchod ac ehangu cynefinoedd lled-naturiol, coed yn y dirwedd, lleihau mewnbynnau artiffisial, a diogelu'r tir gorau a mwyaf amlbwrpas rhag datblygiad.[15]

c. Cadw ac adfer coetir lled-naturiol, coetir pori, coed yn y dirwedd a ffiniau caeau, gan ystyried anghenion cysylltedd rhywogaethau, tirwedd ac effeithiau pathogenau planhigion ee *Chalara* - clefyd coed ynn, a mynd ar drywydd cyfleoedd i leihau effeithiau coetiroedd coniffer anfrodorol ar fioamrywiaeth a'r dirwedd.

d. Rheoli datblygiad yn unol â pholisïau a chanllawiau *Cynllun Datblygu Lleol 2,* Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, mewn perthynas â threftadaeth pridd, dŵr, aer a daear.

Polisi N4: Diogelu ansawdd aer.

Yr effeithiau yn ystod cyfnod y Cynllun:

a. Cefnogi Cyfoeth Naturiol Cymru a'r sector amaethyddol i leihau neu rwystro allyriadau nitrogen adweithiol gyda ffocws cychwynnol ar safleoedd cadwraeth natur yr effeithir arnynt, o bosibl.

b. Monitro a rheoli llygryddion angenrheidiol fel ocsidau nitrogen, carbon monocsid a gronynnau yn ôl y galw.

Crynodeb o'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Polisi N1: Mae'r polisi'n dod â mân fanteision i'r rhan fwyaf o'r amcanion arfarnu cynaliadwyedd trwy hyrwyddo'r fframwaith polisi a nodir yng Nghynllun Datblygu Lleol 2.

Polisi N2: Mae effeithiau cadarnhaol ar ansawdd dŵr mewndirol ac arfordirol ac ar fioamrywiaeth gysylltiedig.

[15] Tir ar raddfa 1, 2 a 3a o system Dosbarthu Tir Amaethyddol (mae manylion y polisi i'w gymhwyso ym Mholisi Cynllunio Cymru).

Polisi N3: Mae manteision cynaliadwyedd cryf yn debygol i'r economi ffermio gwledig yn unol â'r amcan arfarnu cynaliadwyedd ar gyfer hyfywedd economaidd. Bydd cefnogi cadwraeth pridd a chynefin yn helpu i gynnal a gwella'r sinciau carbon naturiol yn y Parc Cenedlaethol yn ogystal â chadw a gwella bioamrywiaeth.

Polisi N4: Mae'r polisi'n cyfrannu'n gadarnhaol at yr amcanion arfarnu cynaliadwyedd perthnasol. Ymdrinnir â materion sy'n ymwneud â llygryddion aer eraill (gan gynnwys nwyon tŷ gwydr) yn uniongyrchol ym mholisïau L3, W1, E1 ac N1.

7. Y camau nesaf

Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn gweithio gyda phartneriaid i weithredu a monitro'r Cynllun Rheoli. Bydd partneriaid yn cael eu hannog i fabwysiadu'r Cynllun a/neu'r effeithiau ynddo ac i ddathlu'r cyfraniadau hynny. Bydd Cynllun Gweithredu sy'n tynnu sylw at ymgyrchoedd neu themâu blynyddol, er enghraifft drwy ganolbwyntio ar dreftadaeth, cadwraeth, neu ymatebion i'r newid yn yr hinsawdd, yn cael ei baratoi. Bydd trafodaethau a gwaith penodol yn parhau, er enghraifft o ran gweithredu argymhellion yr effaith ar gydraddoldeb.

Y bwriad yw cynnal sgyrsiau ac ymgysylltu drwy gydol y cyfnod o roi'r Cynllun Rheoli ar waith. Sefydlwyd grŵp cynllun gweithredu o fewn Awdurdod y Parc Cenedlaethol, a'i brif dasg yw cynnal sgyrsiau ac ymgysylltu. Adroddir am hyn drwy gyfrwng fframwaith rheoli perfformiad yr Awdurdod.

Os hoffech drafod unrhyw agwedd ar y Cynllun Rheoli cysylltwch â:

Cyfeiriad y Parc
Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Parc Llanion
Llanion
Doc Penfro
SA72 6DY

Ffôn: 01646 624800

E-bost: devplans@arfordirpenfro.org.uk

Atodiad A – Cefndir y Parc Cenedlaethol a'r Cynllun Rheoli

Blaenoriaethau yn seiliedig ar dystiolaeth

1.1 Mae papur cefndir, *Cyflwr y Parc Cenedlaethol 2019,* sydd ar gael ar wefan Awdurdod y Parc Cenedlaethol, wedi ei lunio wrth baratoi'r Cynllun Rheoli hwn. Rhestrir rhai o'r ffynonellau tystiolaeth allweddol yn Atodiad C. Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ddibynnol iawn ar raglenni monitro'r sefydliadau sy'n bartner iddo, yn enwedig rhai Cyfoeth Naturiol Cymru a Cadw.

1.2 Mae *Cyflwr y Parc Cenedlaethol 2019* yn cael ei ategu gan waelodlin amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd helaeth sy'n ffurfio rhan o'r Arfarniad o Gynaliadwyedd (gan gynnwys yr Asesiad Amgylcheddol Strategol).

1.3 Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro[16] wedi cyhoeddi Cynllun Llesiant lleol, a gaiff ei ategu gan *Asesiad Llesiant Sir Benfro*, a gafodd ei lywio gan waith ymgysylltu ac arolygu helaeth gyda dinasyddion a rhanddeiliaid, data presennol, tystiolaeth ac ymchwil. Cyhoeddwyd Cynllun Llesiant Sir Benfro ym mis Mai 2018. Mae'n cynnwys wyth prosiect integredig, ac mae gan lawer ohonynt gysylltiadau sylweddol â dibenion y Parc Cenedlaethol. Paratowyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb hefyd (gweler isod).

1.4 Darparwyd *"Cyfleoedd a Heriau: Papur Trafod ar gyfer Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol 2020-2024",*[17] a mapiau cysylltiedig, i gyflwyno sylwadau yn ei gylch rhwng 20 Tachwedd 2018 a 4 Ionawr 2019 fel rhan o'r rhaglen ymgysylltu cynnar ar gyfer adolygu Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol. Roedd y rhain, a chyfres o bapurau cefndir,[18] yn ffrwyth sgyrsiau parhaus anffurfiol gyda sefydliadau partner a'r cyhoedd.

1.5 Mae'r dull hwn yn cyd-fynd â dull ailadroddol o gynllunio, lle mae'r allbynnau a'r dysgu o un cylch yn llywio'r cylch nesaf. Hoffai Awdurdod y Parc Cenedlaethol helpu sefydliadau partner i ystyried sut y gallant gyfrannu at ddibenion y Parc Cenedlaethol trwy eu gwaith eu hunain, ac i ddathlu'r

---

[16] Cyngor Sir Penfro; Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda; Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru; Cyfoeth Naturiol Cymru; Heddlu Dyfed-Powys; Comisiynydd Heddlu a Throseddu; Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro; Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro; Coleg Sir Benfro; Porthladd Aberdaugleddau; Iechyd Cyhoeddus Cymru; PLANED; Canolfan Byd Gwaith; Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol; Llywodraeth Cymru.

[17] Cyfleoedd a Heriau: Papur trafod ar gyfer y Cynllun Rheoli 2020-2024

[18] Papurau Cefndir: (1) Tirwedd, morwedd, llonyddwch ac awyr dywyll; (2) Llesiant, cydraddoldeb a bywoliaeth; (3) Hamdden a dysgu yn yr awyr agored; (4) Cadwraeth natur; (5) Diwylliant a threftadaeth; (6) Hinsawdd ac ynni; (7) Adnoddau naturiol; (8) Deddfwriaeth a pholisi. Ymgorfforwyd y rhain yn y papur *Cyflwr y Parc Cenedlaethol 2019*.

cyfraniadau hynny, a sefydlwyd grŵp partneriaeth strategol fel rhan o'r adolygiad o'r Cynllun Rheoli.

Cyflwr bywyd gwyllt: her allweddol ar gyfer 2020-2024

1.6 Mae cyflwr bywyd gwyllt yn Sir Benfro yn parhau i fod yn bryder mawr. Yn 2016, aseswyd ystod gynrychioliadol o gynefinoedd a rhywogaethau i weld beth oedd eu cyflwr a beth oedd y tueddiadau at y dyfodol. Roedd y rhai yr aseswyd eu bod mewn cyflwr da a / neu'n tueddu i wella oll wedi bod yn destun ymdrech barhaus o warchod. Roedd mwyafrif y cynefinoedd a'r rhywogaethau a aseswyd mewn cyflwr gwael neu gymedrol a'r duedd gyffredinol yw dirywio.

1.7 Yn 2018, cyhoeddodd Ymgyrch y Parciau Cenedlaethol *Codi'r Bar: gwella natur yn ein Parciau Cenedlaethol*. Roedd yr adroddiad yn asesu'r agweddau at fioamrywiaeth yng Nghynlluniau Rheoli'r Parc Cenedlaethol ac yn galw am ddulliau gweithredu llawer cryfach o ran cadwraeth natur ac adfer ecosystemau. Adlewyrchir nifer o gasgliadau ac argymhellion yr adroddiad hwnnw yn y Cynllun Rheoli hwn.

1.8 Mae modd cyflymu'r rhan fwyaf o ymdrechion cadwraeth, ond mae angen adnoddau i ddylanwadu ar y gwaith o reoli tir fferm sy'n fwy cynhyrchiol yn amaethyddol. Mae angen i gynlluniau cymorth amaethyddol wobrwyo'r gwaith o gynhyrchu nwyddau cyhoeddus ac ehangu cyfranogiad mewn adferiad ecolegol ledled Cymru. Bydd Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig Llywodraeth Cymru yn hanfodol i hyn, ac fe allai gyfrannu at yr effeithiau a nodir yn y Cynllun Rheoli hwn yn ogystal â darparu ffrwd incwm newydd posibl i reolwyr tir ar ôl i Brydain adael yr Undeb Ewropeaidd.

Dull partneriaeth

1.9 Ni all Awdurdod y Parc Cenedlaethol gyflawni dibenion y Parc Cenedlaethol ar ei ben ei hun ac mae'n cydweithio'n agos â llawer o sefydliadau ac unigolion eraill. Mae gan rai sefydliadau ddyletswydd gyfreithiol eu hunain i ystyried y dibenion,[19] ond yn ymarferol mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol a phartneriaid yn cydweithio i gynllunio a gwireddu nodau sy'n gyffredin iddynt oll ac sy'n ategu eu gwaith.[20]

1.10 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn rhoi cefnogaeth statudol ychwanegol i ddibenion y Parc Cenedlaethol a'r angen am gymryd rhan a chydweithio i'w cyflawni. Fodd bynnag, mae perthynas ddwy ffordd, gyda rheolaeth y Parc Cenedlaethol yn gallu cyfrannu'n sylweddol at nodau'r ddeddfwriaeth.

1.11 Bwriedir i themâu'r Cynllun Rheoli hwn adlewyrchu'r cydweithio, i ddangos sut y mae polisïau'r Parc Cenedlaethol yn ategu nodau llesiant, hinsawdd, adnoddau naturiol a gwydnwch ecosystemau Cymru.

---

[19] Deddf yr Amgylchedd 1995, adran 62. Mae egwyddor Sandford hefyd yn gymwys i'r sefydliadau hyn - gweler paragraff 1.2 yn y ddogfen hon.

[20] Mae Cynlluniau Corfforaethol ac Adnoddau blynyddol Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn nodi camau a thargedau blynyddol ar gyfer Awdurdod y Parc Cenedlaethol.

1.12 Bydd Datganiad Ardal y De-orllewin a'r Datganiad Ardal Morol a gaiff eu llunio gan Gyfoeth Naturiol Cymru ar sail Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, yn darparu cyd-destun rhanbarthol ar gyfer rheoli.

Canllawiau'r Cynllun Rheoli

1.13 Cyhoeddwyd canllawiau ar baratoi Cynlluniau Rheoli Parciau Cenedlaethol yng Nghymru gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru yn 2007 ac fe'u hategwyd gan gyngor a gyhoeddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn 2014 ar ymgorffori cadwraeth ecosystemau wrth reoli tirwedd warchodedig.

1.14 Mae egwyddorion rheoli ecosystemau yn cynnwys cydnabod bod newid yn anochel, ac y dylai pawb fod yn rhan o wneud penderfyniadau. Mae'r cyngor yn cynnwys astudiaethau achos a'r negeseuon allweddol sydd ynddynt. Ystyriwyd y rhain ac egwyddorion y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol wrth adolygu'r Cynllun Rheoli.

1.15 Ym mis Mai 2018, cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru ddiweddariad ar gyfer tirweddau gwarchodedig. Ynddo, cydnabyddir bod cynlluniau rheoli tirweddau gwarchodedig yn ganolog i atebion sy’n seiliedig ar natur ac ar leoedd, a bod cyfraniadau cadarn i’w gwneud i amcanion gwytnwch a rheoli adnoddau naturiol ar raddfeydd ehangach.

Gwerthfawr a Chydnerth

1.16 Cyhoeddwyd *Gwerthfawr a Chydnerth: Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol* gan Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2018. Mae'n disodli'r datganiad polisi blaenorol (2007) ac yn amlinellu meysydd blaenoriaeth allweddol ar gyfer parciau cenedlaethol ac awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- darparu cyfleoedd ystyrlon i gymryd rhan wrth baratoi cynlluniau a gwneud penderfyniadau
- helpu i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau sy'n bodoli mewn iechyd, addysg a chanlyniadau economaidd ymhlith y tlotaf mewn cymdeithas
- gosod esiampl o ran y dulliau o ddatrys tensiynau rhwng y galwadau cystadleuol am adnoddau naturiol
- mynd ar drywydd rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy wrth arfer swyddogaethau Awdurdod y Parc Cenedlaethol
- sicrhau ecosystemau iach, gwydn a chynhyrchiol sy'n cael eu rheoli'n gynaliadwy ac sy'n cyfrannu at gysylltedd rhwng cynefinoedd
- cynyddu’r gorchudd o goetiroedd gan barchu nodweddion arbennig y tirweddau hyn
- galluogi ynni adnewyddadwy i gael ei gynhyrchu ar raddfa briodol, rheoli dŵr ac atafaelu carbon
- hwyluso datblygiad priodol gan gynnal ansawdd y dirwedd
- datblygu a mireinio dealltwriaeth awdurdodau parciau cenedlaethol o gydnerthedd yr economi leol a chyfleoedd economaidd
- annog, darparu a rheoli cyfleoedd hamdden cyfrifol yn yr awyr agored

- cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o werth y Gymraeg.

Y pum ffordd o weithio

1.17 Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol a llawer o'i bartneriaid yn rhwym wrth y pum ffordd o weithio, a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.[21] Y bwriad yw y bydd y Cynllun Rheoli (cynllun sy'n arwain at brosiectau) yn cyflawni'r pum ffordd o weithio fel a ganlyn. Ystyrir hyn yn feysydd ar gyfer gwelliant parhaus.

Hirdymor	Mae'r Cynllun yn mabwysiadu egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.
Atal	Mae'r Cynllun yn cynnig ffyrdd o osgoi a mynd i'r afael â phroblemau drwy ddylunio yn ogystal â ffyrdd o'u datrys.
Integreiddio	Mae'r Cynllun yn cyd-fynd ag amcanion a nodau llesiant lleol a chenedlaethol, a hefyd â blaenoriaethau'r *Polisi Adnoddau Naturiol* [22] a'r Datganiadau Ardal.
Cydweithio a Chynnwys	Er mwyn i broses y Cynllun Rheoli ychwanegu gwerth mae angen cydweithio rhwng partneriaid a chynnwys croestoriad o bobl sy'n cynrychioli cymdeithas. Mae proses adolygu'r Cynllun yn gyfle i ddechrau sgyrsiau newydd ac i feithrin perthnasau newydd. Mae'r Asesiad o Effaith y Cynllun Rheoli ar Gydraddoldeb wedi canfod bod potensial pellach ar gyfer cydweithio.

Rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy

1.18 Nodir yr egwyddorion ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a'r egwyddorion yw: (a) rheoli mewn modd ymaddasol, (b) ystyried y raddfa ofodol briodol ar gyfer gweithredu, (c) hyrwyddo cydweithio a chydweithredu, a chyfranogi ynddynt (d) gwneud trefniadau priodol i'r cyhoedd gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau, (e) ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol, a chasglu tystiolaeth mewn perthynas â materion y ceir ansicrwydd yn eu cylch, (f) ystyried manteision a gwerth cynhenid adnoddau naturiol ac ecosystemau, (g) ystyried effeithiau tymor byr, tymor canolig a hirdymor gweithredoedd, (h) cymryd camau i atal niwed arwyddocaol i ecosystemau, (i) ystyried cydnerthedd ecosystemau, ac yn benodol amrywiaeth, cysylltiadau, graddfa, cyflwr (gan gynnwys eu strwythur a'u gweithrediad), a gallu ecosystemau i addasu.

[21] Adran 5 o'r Ddeddf (yr egwyddor datblygu cynaliadwy). *Arweiniad ar ddefnyddio Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer Prosiectau* a gyhoeddwyd gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.

Cydraddoldeb

1.19 Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol Awdurdod y Parc Cenedlaethol, 2016-2020, yn nodi amcanion cydraddoldeb Awdurdod y Parc Cenedlaethol a'r camau y bydd yn eu cymryd i'w cyflawni. Cafodd y Cynllun ei lywio gan y ddogfen *A yw Cymru'n Decach? Cyflwr Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2015*, a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, ac ymgynghoriad ac arolwg amlasiantaeth a oedd yn cynnwys y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus yn ne a gorllewin Cymru. Bydd Cynllun Cydraddoldeb Strategol Awdcurdod y Parc Cenedlaethol yn cael ei ddiweddaru yn ystod cyfnod y Cynllun Rheoli i adlewyrchu fersiwn 2018 o *A yw Cymru'n Decach*?

1.20 Yr amcanion yw:

- Parhau i chwalu’r rhwystrau a glustnodwyd ar gyfer pobl sy'n defnyddio gwasanaethau Awdurdod y Parc Cenedlaethol.
- Hybu lefelau uwch o gyfranogiad o gymunedau a rhanddeiliaid eraill yn y broses benderfynu yn Awdurdod y Parc Cenedlaethol.
- Meithrin lefel o ddealltwriaeth o faterion cydraddoldeb, tegwch a chyfiawnder ymhlith staff ac aelodau fel sy'n gweddu i sefydliad yn sector cyhoeddus Cymru.
- Hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth yng ngweithlu Awdurdod y Parc Cenedlaethol.

1.21 Ystyriwyd yr amcanion hyn a'r camau cysylltiedig wrth baratoi'r Cynllun Rheoli hwn.

1.22 Mae’r meysydd polisi gydag agweddau cydraddoldeb penodol yn cynnwys polisi cynllunio, hyrwyddo, mentrau iechyd a lles, cyfleoedd gwirfoddoli, mynediad at hawliau tramwy, datblygu sgiliau a phrofiadau a chyfranogiad ymwelwyr. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi nifer o ystyriaethau i roi sylw iddynt mewn unrhyw brosiect neu gynllun i gefnogi’r Cynllun Rheoli a dibenion y Parc Cenedlaethol.

Atodiad B - Cynlluniau, polisïau a chanllawiau cysylltiedig

Tirwedd ar gyfer bywyd a bywoliaeth

- Asesiad o Gymeriad y Dirwedd, Awdurdod y Parc Cenedlaethol
- *Datganiad Ardal Morol*, (ar y gweill), Cyfoeth Naturiol Cymru
- Ardaloedd Cymeriad Morol Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru
- Ardaloedd Cymeriad Tirwedd Cenedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru
- Asesiad o Gymeriad y Morlun, Awdurdod y Parc Cenedlaethol
- *Datganiad Ardal De-orllewin Cymru*, (ar y gweill), Cyfoeth Naturiol Cymru
- *Gwerthfawr a Chydnerth: Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol*, Llywodraeth Cymru, 2018
- *Gwerthfawrogi Parciau Cenedlaethol Cymru 2013*, Awdurdod y Parc Cenedlaethol
- *Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru 2019*, Llywodraeth Cymru

Llesiant, mwynhad a darganfod

- *Mwynhau Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Cynllun i ddarparu a rheoli cyfleoedd ar gyfer Hamdden Cynaliadwy yn y Parc Cenedlaethol*, Awdurdod y Parc Cenedlaethol, 2011
- *A yw Cymru'n Decach? Cyflwr Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2015*, Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2015
- *A yw Cymru'n Decach? Cyflwr Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2018*, Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2018
- *Cynllun Rheoli Hamdden 5 Mlynedd Dyfrffordd Aberdaugleddau 2016*, Porthladd Aberdaugleddau
- *Archwiliad Hamdden ar gyfer Mynediad i'r Anabl yn Sir Benfro: Adroddiad Atebion Posibl i Rwystrau,* 2017
- *Cynllun Gwella Hawliau Tramwy ar gyfer Sir Benfro 2018-2028*, Cyngor Sir Penfro ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
- *Effeithiau Twristiaeth STEAM, Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 2017*, Global Tourism Solutions (UK) Ltd
- *Cynllun Llesiant Sir Benfro 2018*, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Adfer bioamrywiaeth

- *Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Pryfed Peillio (Adolygiad 2013-18 a Chamau Gweithredu yn y Dyfodol)*, Llywodraeth Cymru
- B-lines: adnoddau rhwydwaith, Buglife a phartneriaid
- *Cynllun Rheoli Ardal Cadwraeth Arbennig Bae Ceredigion*, 2008
- *Cynllun Rheoli Safleoedd Morol Ewropeaidd Bae ac Aberoedd Caerfyrddin*, 2013
- *Cynllun gweithredu Rhywogaethau Anfrodorol Goresgynnol*, Partneriaeth Natur Sir Benfro
- Data cysylltedd Rhwydwaith Lleol, Canolfan Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru
- *Datganiad Ardal Morol,* Cyfoeth Naturiol Cymru

- *Cynllun Gweithredu ar gyfer Rheoli'r Rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig*, Llywodraeth Cymru
- *Cynllun Gweithredu Adfer Natur ar gyfer Sir Benfro*, 2018, Partneriaeth Natur Sir Benfro
- *Cynllun Adfer Natur Cymru*, 2015
- *Cynllun Rheoli Ardal Cadwraeth Arbennig Forol Sir Benfro*, 2008
- *Codi'r bar: gwella natur yn ein Parciau Cenedlaethol*, Ymgyrch dros Barciau Cenedlaethol, 2018
- *Datganiad Ardal De-Orllewin Cymru,* Cyfoeth Naturiol Cymru
- *Natur hanfodol: Gwneud y cysylltiadau rhwng bioamrywiaeth, y bobl a'r lleoedd yng Nghymru*, Cyfoeth Naturiol Cymru, 2018

Dathlu treftadaeth

- *Gofalu am Dirweddau Hanesyddol*, Cadw, Llywodraeth Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Ymddiriedolaethau Archeolegol Cymru, 2007
- Cofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru, Cadw, y Cyngor Rhyngwladol ar Henebion a Safleoedd a Chyfoeth Naturiol Cymru
- Cofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru, Cadw, y Cyngor Rhyngwladol ar Henebion a Safleoedd a Chyfoeth Naturiol Cymru
- Cofrestr o Barciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru, Cadw

Rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy

- *Asesu a Mynd i'r Afael ag Effeithiau Nitrogen Atmosfferig ar Safleoedd Natura 2000 yng Nghymru*, Canolfan Ecoleg a Hydroleg NERC, 2015
- *Strategaeth Trwyddedu Tynnu Dŵr Cleddau ac Afonydd Arfordirol Sir Benfro*, 2014, Cyfoeth Naturiol Cymru
- Methodoleg Ardaloedd Rheoli Newid Arfordirol a mapiau Ardal Rheoli Newid Arfordirol (*Cynllun Datblygu Lleol 2*), Awdurdod y Parc Cenedlaethol
- *Datblygu Asesiad Ynni Adnewyddadwy a Gwybodaeth Darged ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Arfordir Penfro* (diweddariad), Awdurdod y Parc Cenedlaethol
- *Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr 2019*, Dŵr Cymru / Welsh Water
- *Cynhesu Byd-eang o 1.5^{o}C*, Panel Rhynglywodraethol ar Newid Hinsawdd, 2018
- *Cyflwyno Rheoli Cynaliadwy ar Adnoddau Naturiol*, Cyfoeth Naturiol Cymru
- *Datganiad Ardal Morol*, (ar y gweill), Cyfoeth Naturiol Cymru
- *Polisi Adnoddau Naturiol*, Llywodraeth Cymru, 2017
- *Cynllun Addasu Niwgwl*, Cyngor Sir Penfro, Ebrill 2015
- *Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel*, Llywodraeth Cymru, 2019
- *Cynllun Rheoli Traethlin De Cymru 2*, wedi'i gwblhau 2014
- *Datganiad Ardal De-Orllewin Cymru*, (ar y gweill), Cyfoeth Naturiol Cymru
- *Strategaeth Trwyddedu Tynnu Dŵr Teifi a Gogledd Ceredigion*, 2014, Cyfoeth Naturiol Cymru
- *Crynodeb o Adroddiad Tystiolaeth Asesiad Risg Newid Hinsawdd y DU 2017 ar gyfer Cymru*, 2017, Y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd
- *Mae angen i ni siarad am nitrogen. Effaith dyddodiad nitrogen atmosfferig ar fflora a ffyngau gwyllt y DU*, Plantlife a Plant Link UK, 2017
- *Cynllun Rheoli Traethlin Gorllewin Cymru 2*, wedi'i gwblhau 2014

- *Cynllun Rheoli Basnau Afonydd Gorllewin Cymru 2015-2021*, Cyfoeth Naturiol Cymru

Atodiad C - Ffynonellau tystiolaeth allweddol

Tirwedd ar gyfer bywyd a bywoliaeth

- *Rhagolygon Demograffig*, Awdurdod y Parc Cenedlaethol, 2018
- Data safleoedd Adolygiad Cadwraeth Ddaearegol, Cyfoeth Naturiol Cymru
- LANDMAP, Cyfoeth Naturiol Cymru
- Data safleoedd daearegol pwysig yn rhanbarthol
- Data Delweddu Is-goch Gweladwy Radiometer, Gweinyddiaeth Awyrenneg a Gofod Cenedlaethol - Gweinyddiaeth Genedlaethol Cefnforol ac Atmosfferig

Llesiant, mwynhad a darganfod

- Asesu Ansawdd Dŵr Ymdrochi, Cyfoeth Naturiol Cymru
- *Arolwg Defnyddwyr Llwybrau Gwledig 2015-16*, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
- Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016-17. Ffeithiau allweddol ar gyfer polisi ac arfer. Cyfoeth Naturiol Cymru
- *Asesiad Lles ar gyfer Sir Benfro 2017*, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Adfer bioamrywiaeth

- Estyniadau o gynefin o'i gymharu â maint y darn trothwy ar gyfer: mosäig llethrau arfordirol; coetir; glaswelltir a chloddiau heb eu gwella; rhostiroedd mewndirol. Awdurdod y Parc Cenedlaethol – i'w ddatblygu.
- Setiau data Cyfoeth Naturiol Cymru: Cysylltedd Cynefinoedd sy'n Flaenoriaeth; Potensial Ailgysylltu Gorlifdiroedd; Potensial Plannu Coetiroedd ar Orlifdiroedd; Potensial Coetir ar Lannau Afonydd; Potensial Coetir mewn Dalgylchoedd Ehangach.
- Arolwg Cam 1 (hybrid gwreiddiol a synhwyrol o bell 2014), Cyfoeth Naturiol Cymru
- *Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol 2016*, Cyfoeth Naturiol Cymru
- *Cyflwr Bywyd Gwyllt yn Sir Benfro (Diweddariad 2016)*, Partneriaeth Natur Sir Benfro
- Statws safleoedd dynodedig Ewropeaidd (gan gynnwys asesiadau cyflwr nodweddion dangosol 2018), Cyfoeth Naturiol Cymru

Dathlu treftadaeth

- Data Ardal Gadwraeth, Awdurdod y Parc Cenedlaethol
- Cofnod yr Amgylchedd Hanesyddol, Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed
- Data Adeiladau Rhestredig, Cadw
- Set ddata ofodol Asedau Morwrol, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
- Canran a thueddiadau mewn siaradwyr Cymraeg, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (Cyfrifiad 2011)
- Arolwg Cenedlaethol Cymru 2013-14, Arolwg Defnydd Iaith, Ystadegau ar gyfer Cymru, Comisiynydd y Gymraeg, Llywodraeth Cymru
- Data Henebion Cofrestredig, Cadw

Rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy

- Data allyriadau llygredd aer, Rhestr Allyriadau Atmosfferig Cenedlaethol
- Data am briddoedd, a ddatblygwyd gan Brifysgol Cranfield ac a noddwyd gan Adran Bwyd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig
- *Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol 2016*, Cyfoeth Naturiol Cymru